Ysgol Pentreuchaf

105. Polisi Iaith Weithredol

Nod

Sicrhau bod Polisi Iaith yr Awdurdod yn cael ei weithredu drwy'r ysgol, a bod Cymreigrwydd yr ysgol yn cael ei ddiogelu.

Amcanion

1. Sicrhau mai'r Gymraeg yw iaith weinyddol yr ysgol.
2. Gwneud pob ymdrech i hybu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith y plant a'i gilydd, ar yr iard yn ogystal ag yn y dosbarthiadau.
3. Sicrhau cyn belled ag y bo'n bosibl bod yr holl staff atodol yn medru siarad Cymraeg.
4. Rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg ym mhob gweithgaredd all-gwricwlaidd a chyhoeddus.
5. Sicrhau, trwy berswad fod pob hwyr-ddyfodiad yn mynychu'r Ganolfan Iaith yn Ysgol Cefn Coch, Penrhyndeudraeth.

Canllawiau

1. Sicrhau bod pob rhiant newydd di-Gymraeg yn cael cyfle i gyfarfod gyda'r Pennaeth i dderbyn eglurhad a gwybodaeth am Bolisi'r Awdurdod a'r Ysgol.
2. Ysgogi diddordeb yr holl blant mewn gwahanol agweddau o'r diwylliant Cymreig e.e. Yr Urdd, gwerthu llyfrau a chynnig cylchgronnau Cymraeg gweithgarwch y tu allan i'r ysgol – (eisteddfod, Capel, ymweliadau achlysurol a.y.y.b.).
3. Gan mai'r Gymraeg yw'r prif gyfrwng dysgu, dylid ceisio sicrhau bod pob disgybl yn alluog i ddilyn eu haddysg uwchradd trwy'r Gymraeg. Dylid darbwyllo rhieni ynglyn â hyn lle bo angen.
4. Ymateb i ofynion ac arweiniad 'Siarter Iaith Gymraeg' – adnabod o dan pa benawdau mae'r cryfderau/gwendidau o ran dy defnydd gymdeithasol o'r Gymraeg ymysg y plant drwy'r holiadur blynyddol a chreu cynllun i ddatblygu'r defnydd ymhellach.

Casgliad

Mae'r Polisi hwn yn datgan athroniaeth bwysig yr ysgol, a gobeithir cael cefnogaeth lwyr y rhieni er mwyn sicrhau gweithredu effeithiol.

Adolygir **Chwefror 2017**

Arwyddwyd:_____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad:_____